

Cofnodion y Cyngor – cyfarfod 167

Dyddiad y cyfarfod	Gwener 18 Hydref 2018
Lleoliad	Cyngor Celfyddydau Cymru, Plas Bute, Caerdydd
Presennol	Phil George (PG) Cadeirydd, Andy Eagle (AE), Mike Griffiths (MG), Dafydd Rhys (DRh), Richie Turner (RT), Marian Wyn Jones (MWJ), Iwan Bala (IB), Rachel O’Riordan (ROR), Kate Eden (KE) ac Alan Watkin (AW)
Yno	Nick Capaldi (NC), David Alston (DA), Gwyn Williams (GW), Dr Kath Davies (KD), Diane Hebb (DH), Siân Tomos (ST), Angela Thomas (AT), Sandra Hicks (SH), Sera Walker (SW) a Katy Brown (KB) – yn cofnodi
Ymddiheuro	Melanie Hawthorne (MH), Andrew Miller (AM), John Williams (JW)
Arsylwi	Andrew Stevenson (AS)
Cyfieithu	Osian Rhys (ORh)
Cyflwyno	James Forse, ACAS
Statws y papur	I’w ryddhau i’r cyhoedd
Cam gweithredu	
1. Croesawu, cyflwyno ac ymddiheuro	
	<p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.</p> <p>Roedd AM wedi ymddiheuro am ei fod yn annerch Gŵyl Ffilm y BFI yn Llundain.</p> <p>Croesawodd PG yr arsylwyr yma o'r staff:</p> <ul style="list-style-type: none"> • SW (Cydlynedd y fîm Buddsoddi ac Ariannu)

<ul style="list-style-type: none"> • SH (Cydllynydd Ymchwil) <p>Nododd y bydd y Cyngor yn parhau i wahodd staff i'w gyfarfodydd iddynt weld ei waith.</p> <p>Y gobaith yw cynnal cyfarfod Chwefror yn y prosiect cyfalaf sydd newydd ei orffen - Tŷ Pawb - yn Wrecsam. Bydd KB yn cadarnhau hyn yng nghyfarfod Rhagfyr.</p>	KB
<p>2. Datganiadau o fuddiant (i'w nodi)</p> <p>Rhaid cofnodi'r rhain yn y cofnodion (sy'n atodiad yma):</p> <ul style="list-style-type: none"> • MWJ – tynnu Gŵyl Gerdd Bangor • MG - Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (wedi dod i ben Mehefin 2018) • AW – ychwanegu Cadeirydd Theatr Clwyd • PG - Prifysgol Caerdydd – tynnu ymgynghorydd i brosiect yr economi greadigol 	
<p>3. Cofnodion cyfarfod 6 Gorffennaf 2018</p> <p>Cymeradwyodd y Cyngor y rhain yn rhai cywir, heblaw am un gwelliant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eitem 5.3 – yn lle "Cyfalaf" yn yr is-bennawd, rhoi "Gwytnwch" 	
<p>4. Materion sy'n codi</p> <p>Roedd pob cam gweithredu wedi'i gyflawni. Roedd yr eitem am ddysgu creadigol wedi'i ailamserlennu am Ragfyr.</p> <p>Recriwtio aelodau o'r Cyngor</p> <p>Cyfnod y recriwtio fydd 29 Hydref hyd 22 Tachwedd. Rhaid gwneud yn siŵr bod Cymru benbaladr yn cael ei chynrychioli yma. Bydd y wybodaeth yn pwysleisio ein blaenoriaethau gan nodi meysydd lle mae rhy ychydig o gynrychiolaeth yma - amrywiaeth, cydbwysedd rhwng y rhywiau a siaradwyr Cymraeg. Rhaid cydbwyso'r rhain yn erbyn ein hawydd i gael unigolion sydd â phrofiad o ddatblygu gweithgareddau yn ein hardaloedd difreintiedig.</p> <p>Roedd y Cadeirydd am i'r aelodau annog unrhyw bobl addas i ymgeisio.</p> <p>Arweinydd yr uwch dîm arwain ar y Gymraeg</p> <p>ST i wneud hyn.</p> <p>Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau</p> <p>Bydd y tîm yn rhoi cyflwyniad am yr adroddiad gwerthuso yng nghyfarfod</p>	

Rhagfyr.

5. Busnes y Cadeirydd

5.1 Adroddiad y Cadeirydd

Roedd PG wedi sôn am ddiwyddiadau a materion diweddar.

Rachel O'Riordan

Llongyfarchodd y Cyngor ROR ar ei phenodiad diweddar yn gyfarwyddwr artistig a Chyd-brif Weithredwr Theatr Hammersmith.

Venue Cymru

Ar ei ymweliad diweddar â'r lle, roedd gwaith y tîm yna wedi gadael argraff dda ar PG. Roedd yr ymgysylltu â'r celfyddydau mewn iechyd yn dda iawn.

Nododd MWJ, er gwaethaf ei waith ardderchog, fod yr adeilad yn dangos ei oed. Roedd pawb yn gwybod pa mor anodd oedd dod o hyd i arian cyfalaf sylweddol newydd. Ond roeddem ni'n pryderu hefyd bod y methiant i fuddsoddi yn gallu tanseilio gwaith da yna ac mewn lleoedd eraill.

Lleoliadau

Nododd AE yr her gynyddol o reoli lleoliadau. Roedd y cynnydd cyflym mewn costau sefydlog a phrisiau trydan, dŵr ac ati yn peryglu eu cynaliadwyedd.

Cyddfederasiwn GIG Cymru

Roedd cyfarfod rhwng PG a NC a chynrychiolwyr y Cyddfederasiwn i drafod:

- cael cefnogaeth y Cyddfederasiwn o ran eiriolaeth gyda'r saith Bwrdd Iechyd am benodi cydlynwyr y celfyddydau ac iechyd
- datblygu modelau cynaliadwy ar gyfer presgripsiynau cymdeithasol
- hyfforddi artistiaid a chlinigwyr

Astudiaeth ddichonoldeb am oriel gelf gyfoes genedlaethol

Nododd NC fod disgwyl i gyhoeddiad gan y Gweinidog yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ar 27 Tachwedd.

Cyfarfod â'r Gweinidog dros Ddiwylliant

Soniodd NC a PG am y cyfarfod.

Cadeirydd Camelot

	<p>Roedd PG a NC wedi cwrdd â Syr Hugh Robertson, Cadeirydd Camelot (sy'n gweithredu'r Loteri Genedlaethol). Roedd y drafodaeth am effaith arian y loteri sy'n lleihau i achosion da ac effaith y loteriau eraill sy'n cystadlu (gan gynnwys loteriau cymdeithasau).</p>	
<p>5.2</p>	<p>Hunanasesiad blynyddol y Cyngor Mae hwn yn rhan o'n hymrwymiad i lywodraethu da. Digwyddodd ar 5 Gorffennaf 2018. Roedd y tabl wedi crynhoi'r prif faterion.</p> <p>Byddwn ni'n trafod ac adolygu'r papur yng nghyfarfod Rhagfyr.</p> <p>Nododd y Cyngor y papur.</p>	<p>PG</p>
<p>5.3</p>	<p>Cymru yn Fenis a Bale Nimba Gweithred y Cadeirydd Roeddem ni wedi cymeradwyo hon.</p>	
<p>6.</p>	<p>Adroddiad y Prif Weithredwr Ynddo roedd manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau a pherfformiadau diweddar a'r staff a oedd wedi ymuno ac wedi ymadael â'r Cyngor.</p> <p>National Theatre of Wales Roedd cyfarfod rhwng Bwrdd y Theatr a grŵp o awduron.</p> <p>Cyfarfod monitro chwarterol Cyngor y Celfyddydau Soniodd am fusnes y cyfarfod.</p> <p>Cynhyrchiad Theatr Clwyd o Lord of the Flies Nododd ROR fod y cynhyrchiad yn un ar y cyd â'r Sherman. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau gwmni gydweithio.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>7. 7.1</p>	<p>Gweithredol Adolygiad sefydliadol– gwersi a gafodd eu dysgu Rhan o'n prosesau rheoli yw asesu wedyn pa mor effeithiol rydym ni wedi bod wrth gyflawni prosiect. Felly dyma weld pa mor dda oedd rheolaeth yr uwch dîm arwain o'r adolygiad gyda 5 cwestiwn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Beth oeddem ni eisiau ei gyflawni? 2. Beth ddigwyddodd? 3. Oes gwahaniaeth rhwng y cyntaf a'r ail? 4. Pam mae gwahaniaeth? 5. Pa wersi sydd yna i'w dysgu? 	

<p>Yn y papur roedd dadansoddiad yr uwch dîm. Ynndo roedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profiad y tîm o weithredu'n ymarferol gynigion yr adolygiad • Trafodaethau'r Cyngor • Adborth y staff • 2 adroddiad archwilio mewnol ar bwnc yr adolygiad <p>Roeddem ni wedi diolch i'r uwch dîm am ei asesiad gonest a chllir. Roedd y tîm i'w longyfarch am y llwyddiannau. Ond roedd yn dda cael gweld hefyd y pethau nad oedd wedi mynd cystal. Roeddem ni wedi cydnabod y dadansoddiad yn seiliedig ar weld arolygon y staff a Deloitte a sgysiau rhyngom ni a'r staff.</p> <p>Nododd y Cyngor y prif faterion. Roedden nhw wedi cadarnhau'r ddau arolwg cynharach. Roeddem ni'n monitro cynnydd ac wedi cymeradwyo camau gweithredu'r tîm.</p> <p>Roeddem ni'n arbennig o awyddus i weld cynnydd mewn dau faes:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwell cyfathrebu • rhagor o gyfraniad gan y staff at ddatblygu polisïau a phrosiectau allweddol <p>Roeddem ni'n falch o weld fod yr aelodau newydd o'r tîm cyfathrebu yn mynd rhagddo gyda'r cynllun cyfathrebu roeddem ni wedi cytuno ag ef. Roeddem ni hefyd wedi croesawu gweithdai'r staff dros yr haf/hydref am amrywiaeth a pholisi loteri a'r grŵp prosiect am ail-lunio swyddfa Caerdydd.</p> <p>Nododd SB y bydd rhagor o gynnydd ym maes cyfathrebu dros y misoedd i ddod. Roedd pobl yn defnyddio Hwb yn well ac roedd y tîm cyfathrebu wrthi'n profi gwahanol ffyrdd o ddefnyddio offer cyfathrebu. Roedd sesiynau 'galw heibio' misol i staff rannu gwybodaeth hefyd yn digwydd.</p> <p>Mae gan yr uwch dîm dic restr fanwl o dasgau i'w gwneud. Roedd y rhan fwyaf ohonynt bellach wedi'u gorffen. Awgrymodd y Cyngor y dylai'r tîm rannu hon â staff.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	NC
<p>7.2 Adroddiad radar y portffolio Roedd KD wedi cyflwyno hwn.</p> <p>Ar yr adeg yma o'r flwyddyn roedd y swyddogion yn adolygu cynlluniau Cymraeg y portffolio.</p>	

Dyma'r pwyntiau a oedd wedi codi:
Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
Roedd wedi gwella i fod yn wyrdd.

Chapter

Mae ei adolygiad sefydliadol wedi dod i ben.

Cyngor Sir Powys a Theatr Brycheiniog

Yn ddiweddar cafodd y Theatr y newydd fod perchennog ei hadeilad, Cyngor Powys, wedi cytuno i dalu costau cynnal a chadw'r adeilad am y tair blynedd diwethaf. Byddwn ni'n gwneud adolygiad o effeithiolrwydd gweithredol y theatr.

Llenyddiaeth Cymru

Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant erbyn hyn wedi cyhoeddi ei ymateb i'r adolygiad cyhoeddi a llenyddol. Ni fydd swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo ond mae'r Gweinidog wedi annog pawb i gydweithio'n agosach. Mae NC/PG yn cyfarfod yn fuan â chadeirydd a phrif weithredwr Llenyddiaeth Cymru i drafod y sefyllfa. Roeddem ni wedi cytuno i lythyr y Gweinidog gael ei gylchredeg o'n cwmpas.

National Theatre Wales

Cafodd y theatr lythyr agored yn ddiweddar gan grŵp o awduron sy'n cwestiynu agweddau ar waith y cwmni.

Mae pobl yn gofyn i aelodau am farn y Cyngor. Roeddem ni wedi cytuno galw cyfarfod anffurfiol i aelodau gael deall y sefyllfa.

Glan yr Afon

Cafodd Alan Dear ei recriwtio'n Bennaeth Celfyddydau Casnewydd Fyw.

Nododd y Cyngor yr adroddiad.

7.3 Adroddiad cysylltiadau â'r awdurdodau lleol

Diolchodd PG i ST a Henry Rees (Rheolwr Portffolio) am yr adroddiad manwl.

Cipolwg oedd y papur o'r dadansoddiadau SWOT gan y swyddogion sy'n gyfrifol am y cysylltiadau. Y nod oedd rhoi blas i'r Cyngor o'r sefyllfa ym mhob ardal gyda'r cyfleoedd a'r bygythiadau posibl. Croesawodd y Cyngor yr adroddiad.

KB

KB

<p>Nododd Cyngor gynnwys y papur.</p>	
<p>8. Strategaeth Loteri – papur ymgynghori â'r cyhoedd (drafft) Roedd KD wedi cyflwyno'r papur. Byddwn ni'n ei rannu'n gyhoeddus yn y misoedd nesaf. Ffrwyth yw'r papur o drafodaeth helaeth ymysg staff a dau weithdy lle roedd syniadau yn cael eu gwyntyllu. Mae hefyd yn adlewyrchu ein trafodaethau cynharach yn y Cyngor.</p> <p>Roedd nifer o themâu yn gyfarwydd ac maen nhw'n cysylltu â'n cynllun corfforaethol, <i>Er budd pawb</i>.</p> <p>Roedd ystod eang o bynciau trafod yn cael ei hawgrymu. Mae rhai'n fwy cymhleth nag eraill. O bosibl bydd gan rai oblygiadau pellgyrhaeddol. Rhaid asesu eu heffaith yn ofalus wedyn.</p> <p>Roeddem ni'n croesawu'r papur gyda chyfeiriad a blaenoriaethau clir ac wedi cymeradwyo ei gyhoeddi (gydag un newid i KD ei wneud cyn ei gyhoeddi).</p> <p>Adolygiad Buddsoddi 2020 O gofio'r ymgynghoriad loteri a materion ariannu, roeddem ni'n meddwl am yr amser iawn am adolygiad buddsoddi 2020. Yn ei chynigion cyllidebol drafft, dim ond arian digyfnewid y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig inni ar gyfer 2019/20. Bydd brecsit yn dod i fwcl yn 2019 ac adolygiad gwariant cynhwysfawr Llywodraeth Prydain yn digwydd yn yr un flwyddyn, felly mae'n anodd gwybod sut bydd pethau.</p> <p>Bydd proses ein hadolygiad yn dechrau tua Hydref 2019 gydag ymgynghoriad ar y cylch gorchwyl. Wedyn byddwn ni'n derbyn ceisiadau yng ngwanwyn 2020 a phenderfynu yn Hydref 2020. Os byddwn ni'n cael gwybod beth fydd arian y Llywodraeth inni yn y dyfodol, bydd trefniadau ariannu newydd ar waith o 1 Ebrill 2021 ymlaen.</p> <p>Roeddem ni wedi cytuno i'r wybodaeth yma fynd at y portffolio a'r cysylltwyr yn yr awdurdodau lleol.</p>	<p>NC</p>
<p>9. Adolygiad cyflog Cyngor y Celfyddydau</p> <p>Yn gynharach yn y flwyddyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ein cylch cyflog ar gyfer 2017/18. Ond roedd y Llywodraeth wedi gofyn inni edrych ar agweddau ar ein strwythur cyflogau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lefel gyflog i rai graddau 	

- gorgyffwrdd graddau – gradd uchaf un band yn uwch na gradd isaf y band nesaf i fyny
- gwerth cynyddol – mae gwerth y rhain yn amrywio mewn gwahanol fandiau (rhwng 4% a 14%)

Roedd Acas wedi'i gomisiynu i wneud y gwaith yn dilyn proses gaffael gystadleuol. Daeth Acas i'r cyfarfod i'n briffio am y cam cychwynnol y gwaith.

Mae'r adolygiad cyflog yn digwydd yn erbyn cefndir o galedi economaidd sy'n parhau. Ni fydd rhagor o arian flwyddyn nesaf gan Lywodraeth Cymru ac mae risg y bydd arian y loteri yn gostwng. Ond ein huchelgais i'r adolygiad cyflog yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng tegwch i'r staff a'r hyn mae'r Cyngor yn gallu ei fforddio.

Mae Acas wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o'r rhain:

- ein rolau a'n disgrifiadau swydd
- ein trefniadau cyflogi
- strwythur ein graddau cyflog
- y polisiau adnoddau dynol perthnasol

Mae Acas hefyd wedi gwneud ymarfer meincnodi gan edrych ar rolau tebyg gan gynnwys:

- yn Llywodraeth Cymru
- cyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru
- cynghorau celfyddydau eraill Prydain

Mae Acas hefyd wedi cael cyfarfod ymgynghorol gyda'n cangen o'r Undeb.

Roeddem ni'n meddwl bod ffordd Acas yn drylwyr ac rydym ni'n edrych ymlaen at gael yr adroddiad terfynol a'i argymhellion erbyn diwedd y mis.

Roeddem ni wedi dirprwyo i is-grŵp y cyfrifoldeb am symud ymlaen y drafodaeth am yr adroddiad. Ein gobaith yw bod mewn sefyllfa i gytuno ar ymateb i'r adroddiad yng nghyfarfod Rhagfyr.

Roeddem ni wedi diolch i Acas am gyflwyniad trylwyr.

10. Adroddiadau Pwyllgor

10.1 Pwyllgor adnoddau dynol a chydnabyddiaeth ariannol - 19 Medi 2018

Roedd MG wedi rhoi adroddiad am fusnes y cyfarfod.

	<p>Bydd tri aelod o'r staff yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod i gwrdd â'r pwyllgor.</p> <p>Roedd trafod ar yr hunanasesiad yng nghyfarfod 18 Hydref.</p> <p>Gofynnodd MG a oedd modd i'r aelodau annibynnol ddod i arsylwi ar gyfarfod y Cyngor. Roeddem ni wedi cytuno. KB i gysylltu â'r rheolwr adnoddau dynol.</p> <p>Roeddem ni hefyd wedi cytuno bod adroddiad y Cyfarwyddwyr yn cael ei gylchredeg i aelodau'r pwyllgor yma a phwyllgor archwilio a sicrwydd risg er eu gwybodaeth.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	<p>KB</p> <p>KB</p>
<p>10.2</p>	<p>Pwyllgor archwilio a risg sicrwydd – 27 Mehefin 2018</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>10.3</p>	<p>Pwyllgor archwilio a risg sicrwydd – 3 Hydref 2018</p> <p>Bydd y cofnodion yn dod i'r Cyngor nesaf.</p>	
<p>10.4</p>	<p>Pwyllgor Cyfalaf - 21 Medi 2018</p> <p>Roedd AW wedi rhoi adroddiad am fusnes y cyfarfod.</p> <p>Galeri Aeth y Pwyllgor i agoriad cam 2 o'r rhaglen gyfalaf.</p> <p>Cwmni'r Frân Wen Roeddem ni wedi cymeradwyo grant o £224,675 (neu 75% o'r costau cymwys, pa un bynnag yw'r lleiaf) yn ddarostyngedig i'r amodau ychwanegol canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. bod cyfathrebiad ysgrifenedig o ba arian partneriaeth sydd ar gael a manylion clir o ffynonellau'r arian yna'n cael ei gyflwyno i dîm Buddsoddi ac Ariannu 2. bod amserlen o gyfarfodydd y grŵp llywio yn cael ei chytuno â ni yn flaenoriaeth a hynny cyn dechrau'r prosiect 3. bod papurau tendro i'r tîm dylunio yn cael eu cyflwyno inni a'n bod ni'n eu cymeradwyo cyn hysbysebu 4. bod swyddogion y Cyngor yn rhan o gaffael y tîm dylunio 5. bod cadarnhad ysgrifenedig sut mae'r cwmni wedi ystyried effaith 	

	<p>gronnol unrhyw ffioedd yn y dyfodol gyda'r un contractwyr, a sut byddai hyn yn effeithio ar gaffael OJEU, nawr neu nes ymlaen yn y prosiect</p> <ol style="list-style-type: none"> 6. bod yr artist penodedig yn arwain ar ddatblygu strategaeth gelf gyhoeddus i'r prosiect 7. dylai swyddogion y Cyngor fod yn rhan o gaffael yr artist 8. bod y cwmni yn cymryd cyngor proffesiynol i adolygu ei statws TAW o ran y prosiect yma, er mwyn gwneud yn siŵr yn y dyfodol ei fod yn gallu manteisio ar unrhyw arbedion TAW. Dylai hyn ddigwydd cyn iddynt fynd i unrhyw gostau pellach – byddai'n gallu cael effaith fawr ar gyfanswm cost y prosiect 9. bod y cwmni yn cynhyrchu cofrestr risg gynhwysfawr i'w hystyried ym mhob cyfarfod o'r grŵp llywio <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>10.5 Grŵp monitro'r Gymraeg - 5 Hydref 2018</p>	<p>Roedd MWJ wedi rhoi adroddiad am fusnes y cyfarfod.</p> <p>Nododd ei bod yn siomedig gweld bod lefelau is o grantiau loteri yn parhau i gael eu dyrannu i gynyrchiadau Cymraeg.</p> <p>Roedd wedi diolch i ST a swyddogion am gynnal digwyddiad ymgynghorol am y theatr Gymraeg yn yr Eisteddfod eleni. Roedd hi'n gobeithio byddai'r mentrau yma'n esgor ar lwyddiant yn fuan.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>10.6 Grŵp monitro cenedlaethau'r dyfodol – 2 Awst 2018</p>	<p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>10.7 Grŵp monitro'r cydraddoldebau – 11 Medi 2018</p>	<p>Roedd RT wedi rhoi adroddiad am fusnes y cyfarfod.</p> <p>Roedd yr hysbyseb i recriwtio dau aelod annibynnol i'w chyhoeddi cyn bo hir.</p> <p>Ychwanegodd MG fod yna hefyd un swydd wag yn y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	

11. Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Yn y papur a'i atodiadau mae'r newyddion diweddaraf am ein perfformiad yn ôl amcanion blwyddyn gyntaf y cynllun (Ebrill 2017 hyd Fawrth 2018).

Mae'n disgrifio ein cynnydd yn y prosiectau a'r mentrau perthnasol. Rydym ni'n gwneud cynnydd sylweddol gyda Hynt, Camau Creadigol, y Celfyddydau a Phobl Hÿn, Unlimited a'n rhaglen gyfalaf. Ond mae data'r arolwg o'r portffolio yn dangos lefelau siomedig o weithgarwch o hyd.

Yn ein trafodaethau am ein cynllun corfforaethol newydd a'n hadolygiad o'r cynllun cydraddoldeb, roedd y syniad wedi codi nad aethom ni'n ddigon pell. Bydd rhai pethau'n newid yn sicr ond o bosibl bydd yn rhaid inni nodi catalyddion allweddol i greu rhagor o newid.

Roedd ein grŵp monitro cydraddoldebau wedi cwestiynu pa mor ddilys a defnyddiol oedd y data o'i flaen. Prif her adrodd am gynnydd yw amseriad arolwg y portffolio. Mae hyn yn meddwl nad yw'r data ar gael am 3-4 mis ar ôl y dyddiad adrodd. Wedyn nid yw'r Cyngor yn gweld yr adroddiad tan 6 mis ar ôl y cyfnod adrodd. Mae ein fîm ymchwil wrthi'n cynnal adolygiad mawr o'n prosesau adrodd i ddod o hyd i ateb.

Roedd cwestiwn arall gennym hefyd am ba mor gysáct oedd y darlun o wir weithgarwch y sector. Ar hyn o bryd rydym ni'n gofyn am nifer y digwyddiadau neu brosiectau sydd wedi'u targedu. Yn ôl y data mae'r rhain yn gostwng gyda lleihad hefyd yn y rhai sy'n mynychu neu gymryd rhan. Ond a yw hyn yn meddwl bod llai o angen am y math yma o ddigwyddiad? Mae'n bosibl, wedi'r cyfan, bod pobl yn mynd i rai nad ydynt yn targedu neb. Mae data am raglenni 'agored' ar goll. Mae ymchwil yn chwilio am ateb.

Pwysleisiodd ROR fod llawer o'n portffolio wedi gwneud camau breision gyda'r agenda yma. Ategodd DH hyn drwy nodi'r gwelliant a oedd yn y cynlluniau cydraddoldeb a oedd yn dod oddi wrth y portffolio.

Nododd y Cyngor y diweddariadau.

12. Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Roeddem ni'n croesawu'r adroddiad cynhwysfawr gan nodi:

Concordat y celfyddydau, iechyd a lles yn y Gogledd

Aeth MWJ i'r digwyddiad llwyddiannus yn Theatr Clwyd i lansio'r concordat sy'n cynnwys enghreifftiau o effaith y celfyddydau ar iechyd.

Adroddiad arddangos y Cyngor Prydeinig

Roedd ei gangen Cymru wedi cyhoeddi'r ymchwil yn ddiweddar. Rhaid meddwl am oblygiadau hyn wrth inni orffen ein gwaith ar ein strategaeth ryngwladol.

Anthem

Mae cynnydd sylweddol wedi bod a nododd DA fod rhywun llawn egni wedi'i benodi'n Gadeirydd a bydd enw'r Cadeirydd yn cael ei gyhoeddi ddechrau Tachwedd.

Brexit

Gofynnodd KE a oedd yn bryd i'r Cyngor drafod y goblygiadau. Nododd NC fod swyddogion wedi sefydlu gweithgor mewnol i drafod hyn ac y bydd adroddiad yn dod i gyfarfod Rhagfyr y Cyngor.

Eisteddfod Genedlaethol

Roedd MWJ yn siomedig nad oedd unrhyw gyfeiriad penodol at lwyddiant yr Eisteddfod eleni yn adroddiad y Cyfarwyddwr. Yn ôl DA nid oedd yr adroddiad cwblhau wedi'i orffen eto. O bosibl bydd adroddiad mwy manwl ar gael yn Rhagfyr.

Nododd y Cyngor yr adroddiad.

13. Adroddiadau llywodraethu ac ariannol

13.1 Llythyr rheoli Swyddfa Archwilio Cymru

Nododd y Cyngor y llythyr gan longyfarch y fîm cyllid ar nifer isel iawn o faterion a gafodd eu codi.

13.2 Adroddiad ariannol 2018/19 hyd 31 Awst 2018

Yno roedd trosolwg o incwm a gwariant hyd ddiwedd Awst 2018.

Nododd y Cyngor y sefyllfa ariannol.

14.3 Argymhellion ariannu

Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo penderfyniadau ar geisiadau loteri o £50,001 neu fwy. Yma mae 10 argymhelliad. Hefyd roedd angen cymeradwyo grant ychwanegol yn y flwyddyn i Gelfyddydau leuenticid Cenedlaethol Cymru i roi sicrwydd i'r prosiect: Sorrows of the Somme.

Cyfeirnod	Sefydliad	Cais	Argymell	Maes
20180694	Cynyrchiadau Be Aware	£54,000	£54,000	Teithio cenedlaethol
20180706	De Oscuro	£77,644	Gwrthod	Teithio cenedlaethol
20180705	Give It A Name	£60,000	Gohirio	Teithio cenedlaethol
20180681	Theatr Hijinx	£78,216	£78,216	Teithio cenedlaethol
20180626	Opera'r Canolbarth	£91,031	£91,031	Teithio cenedlaethol
20180654	The Other Room	£100,000	£100,000	Teithio cenedlaethol
20180656	Theatr na nÓg	£85,000	Gohirio	Teithio cenedlaethol
20180682	Theatr Pena	£98,500	Gwrthod	Teithio cenedlaethol
20180661	We Made This	£57,000	£57,000	Teithio cenedlaethol
20180683	Pontio	£59,697	£59,697	Cefnogaeth rhaglen
20180585	Mercator Rhyngwladol	£95,000	£95,000	Datblygu cynulleidfa
		£856,088	£534,944	

Aeth RT o'r stafell ar gyfer trafodaeth Mercator.

Aeth ROR ar gyfer trafodaeth Hijinx.

Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r argymhellion. Rhaid i KD gael gwybod beth yw'r rhestr lawn o'r fîm creadigol ym mhrosiect The Other Room.

Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo grant untro yn y flwyddyn i Gelfyddydau

	Cenedlaethol Ieuenctid Cymru o £78,750.	
	Nododd y Cyngor yr arian grant o £534,944.	
14.	Adroddiadau er gwybodaeth	
14.1	Cynllun Gweithredol 2018/19 –adroddiad chwarter 2	
	Nododd y Cyngor adroddiad chwarter 2.	
14.2	Fframwaith sicrwydd corfforaethol/cofrestr risg	
	<p>Mae'n cael ei adolygu bob chwarter gan bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae'n dod i'r Cyngor bob blwyddyn. Yn ein cyfarfod Mawrth 2018, roeddem ni wedi cytuno byddai'n dda gweld hyn ym mhob cyfarfod ar ôl i'r Pwyllgor ei weld. Roedd meysydd pob amcan wedi'u hadolygu a'u diweddarau gan yr uwch dîm arwain ym Mai a Mehefin. Yn unol â'r cylch gorchwyl, gwelodd y Pwyllgor y fersiwn atodedig yn gyntaf cyn iddi fynd i Gyngor Gorffennaf.</p> <p>Mae'r adran dueddiadau yn y fframwaith yn cynnwys y prif bwyntiau i'w nodi o'r adolygiad diweddar.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
15.	Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol	
	Nododd y Cyngor y dyddiadau.	
16.	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
	Gwener 7 Rhagfyr 2018, Cyngor Celfyddydau Cymru, Caerdydd	

Cyfarfod y Cyngor - Gwener 18 Hydref 2018
Crynodeb o'r camau gweithredu a phenderfyniadau

Eitem agenda	Cam gweithredu/penderfyniad	Cyfrifol
1.	Cadarnhau yn Rhagfyr a fydd cyfarfod Chwefror yn Wrecsam.	KB
5.2	Adolygu hunanasesiad y Cyngor yng nghyfarfod Rhagfyr.	PG
7.1	Rhannu tic restr tasgau'r adolygiad sefydliadol gan yr uwch dîm â'r staff.	NC
7.2	Cylchredeg ymhlith y Cyngor lythyr y Gweinidog am adolygu cyhoeddi a llenyddiaeth.	KB
7.2	Cynnal cyfarfod briffio anffurfiol i'r Cyngor am ddatblygiadau gyda National Theatre Wales.	KB
8.	Rhoi gwybod i'r portffolio a chysylltiadau yn yr awdurdodau lleol am amserlen Adolygiad Buddsoddi 2020.	NC
10.1	Bydd gan aelodau o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol gyfle i weld cyfarfod llawn o'r Cyngor.	KB
10.1	Cylchredeg adroddiad y Cyfarwyddwyr ymhlith aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol a'r Pwyllgor Sicrwydd Risg, er eu gwybodaeth.	KB
14.3	Sefydlu'r rhestr lawn o'r fîm creadigol yn rhaglen The Other Room.	KD